CYFRES A5

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Storïau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 12: 1-9

ADNOD ALLWEDDOL
Diarhebion 3: 5

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.

Stori 1 Duw yn galw Abram



Ydych chi wedi symud tŷ erioed? Mae'n rhaid pacio llawer o bethau os byddwn ni'n symud tŷ. Dyna gyffrous yw symud i fyw mewn cartref newydd!

Gadawodd Abram y wlad lle cafodd ei eni a theithio cannoedd o filltiroedd i wlad newydd. Roedd ganddo resymau arbennig iawn dros symud. Roedd Duw wedi dweud wrtho am adael ei wlad a mynd i wlad arall. Roedd Duw'n dweud y byddai ef yn dangos y ffordd iddo.

C **Ysgrifennwch yn y swigen siarad beth ddywedodd Duw wrth Abram.**

"Mae angen i ti
adael dy w _ _ _ a
m _ _ _ i w _ _ _ arall.
Byddaf i'n d _ _ _ _ y
ff _ _ _ i ti."

Pam ddywedodd Duw wrth Abram am symud? Roedd gan Dduw gynlluniau pwysig ar gyfer Abram. Roedd yn mynd i'w wneud yn bennaeth cenedl arbennig. Byddai Abram yn dod yn ddyn enwog iawn!

C **Rhowch ✓ ar ôl y DDWY frawddeg sy'n wir.**

Gadawodd Abram ei gartref gan ei fod wedi ffraeo â'i deulu. .....
Cafodd Abram ei ddewis gan Dduw i fod yn bennaeth cenedl bwysig. .....
Gadawodd Abram ei gartref am nad oedd bwyd yno. .....
Daeth Abram yn ddyn enwog iawn .....

4

Beth fyddai Abram yn ei wneud? A fyddai'n ufudd i Dduw ac yn trystio Duw i gadw'i addewidion? Ynteu a fyddai'n mynd ei ffordd ei hunan? Roedd Abram yn ddoeth, a bu'n UFUDD i Dduw a'i DRYSTIO i'w arwain y ffordd iawn. Dylen ni wneud hynny hefyd!

C **Lliwiwch yr Adnod Allweddol.**

"Ymddiried yn Iiwyr yn yr Arglwydd"

5

C **Ysgrifennwch pa adnod, o ba bennod, o ba lyfr yn y Beibl yw hi**

_____

2

Felly, cychwynnodd Abram o'i gartref. Doedd e ddim yn gwybod i ble y byddai Duw'n ei arwain. Ar ôl taith hir, daeth i wlad Canaan a dywedodd Duw wrtho y byddai'n rhoi'r tir hwn iddo ef a'i deulu. .

C **Ysgrifennwch enw'r wlad yr addawodd Duw ei rhoi i Abram.**

C _ _ _ _ _

Roedd ei wraig, **Sarai**, a'i nai, **Lot**, gydag ef ar y daith.

C **Ysgrifennwch eu henwau yn y bylchau.**

S _ _ _

L _ _

4